WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd – Adolygiad Dilynol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1472A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflawnwyd y gwaith gan Grant Thornton UK LLP dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad seiliedig-ar-risg cynhwysfawr o'i allu i gyflawni ei rwymedigaethau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd mewn hinsawdd ariannol fwyfwy heriol. Hyd yma, mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i drefnu ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd o fewn y cwmpas ariannol sydd ar gael a chyda ffocws eglur ar ddeilliannau strategol.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cynigion ar gyfer Gwella | 7 |
| Adroddiad manwl | |
| Mae'r adnoddau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau ers 2014-15 gyda gostyngiadau pellach yn debygol o fod yn angenrheidiol mewn blynyddoedd yn y dyfodol | 8 |
| Mae arweinwyr gwasanaethau o'r farn bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ar gyfer iechyd yr amgylchedd. | 10 |
| Mae fframwaith perfformiad corfforaethol seiliedig ar ddeilliannau'n bodoli, sydd yn gyson ag arfer da. Fodd bynnag, nid oes trosolwg cyfannol o'r modd y mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn perfformio yng nghyd-destun y gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned ehangach | 10 |
| Ceir her a throsolwg da lle mae materion iechyd yr amgylchedd yn y cwestiwn pan fo'r rhain yn cael eu cynnwys ar agendâu Pwyllgorau Craffu | 12 |
| Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â thrigolion ynghylch newidiadau arfaethedig lle mae'r rhain yn debygol o effeithio ar wasanaethau rheng-flaen | 13 |
| Mae'r Cyngor wedi dechrau archwilio modelau darparu amgen ac arloesi i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian | 13 |
| Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio strategol da ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd | 14 |

Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – Cyflawni â llai – yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion 2014 | 16 |
| Atodiad 2 – Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol | 19 |

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol **Cyflawni â Llai – yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion** (gweler Atodiad 1 ar gyfer yr argymhellion o'r adroddiad hwnnw). Fe wnaeth ein hadolygiad yn 2019 asesu pa un a fu unrhyw newidiadau i gyllidebau a staff yng ngwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gennym yn 2014.

2 Mae gan gynghorau ddyletswyddau niferus lle mae iechyd yr amgylchedd yn y cwestiwn ac mae dinasyddion yn rhoi gwerth mawr ar lawer o'r gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir. Ar ben hynny, mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd, llesiant a diogelwch trigolion Cymru ac ymwelwyr â'r wlad.

3 Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cwmpasu ystod o faterion, megis diogelwch bwyd, rheoli plâu, rheoli cŵn, tai a lleihau achosion ac effeithiau llygredd aer.

4 I oleuo ein canfyddiadau, fe wnaethom gyfweld â detholiad o swyddogion ac aelodau, y mae eu cylch gorchwyl yn cynnwys trefniadau'r Cyngor ar gyfer iechyd yr amgylchedd. Fe wnaethom hefyd adolygu dogfennaeth berthnasol.

5 Fe gynhaliom ni'r adolygiad rhwng mis Ebrill 2019 a mis Gorffennaf 2019.

## Cefndir

6 Fel rhan o broses pennu'r gyllideb yn 2015-16, cynhaliodd y Cyngor ymarfer lleihau costau, gan gyflawni tua £4m o arbedion blwyddyn lawn ar draws Diogelwch y Cyhoedd, gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd.

7 Cafodd y broses ei thanategu gan asesiad risg ac arfarniad o'r opsiynau ar gyfer pob maes o fewn gwasanaeth iechyd yr amgylchedd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol, yn ogystal ag er mwyn darparu gwasanaethau dewisol y barnwyd y byddent o fudd mawr i'r cyhoedd.

8 Fel rhan o'r ymarfer hwn, fe wnaeth y Cyngor wahanu'r gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn glir yn wasanaethau 'statudol heb reolaeth' (hanfodol i'w darparu er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol), 'statudol â rheolaeth' (gwasanaethau y mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i'w darparu, ond gyda'r gallu i arfer peth disgresiwn o ran lefel y gwasanaeth a ddarperir) ac 'anstatudol' (gwasanaethau nad oes dyletswydd statudol ar y Cyngor i'w darparu.

9 Ers yr ymarfer lleihau costau gwreiddiol, mae'r Cyngor wedi bod yn cymryd camau i archwilio modelau eraill ar gyfer darparu gwasanaethau, megis rhoi gwasanaethau ar gontract allanol a buddsoddi i arbed.

## Yr hyn a ganfuom

10 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: a yw gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn y Cyngor yn dal i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o ystyried yr heriau ariannol?

11 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor wedi cynnal asesiad seiliedig-ar-risg cynhwysfawr o'i allu i gyflawni ei rwymedigaethau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd mewn hinsawdd ariannol fwyfwy heriol. Hyd yma, mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i drefnu ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd o fewn y cwmpas ariannol sydd ar gael a chyda ffocws eglur ar ddeilliannau strategol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau isod:

- Mae'r adnoddau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau ers 2014-15 gyda gostyngiadau pellach yn debygol o fod yn angenrheidiol mewn blynyddoedd yn y dyfodol.
- Mae arweinwyr gwasanaethau o'r farn bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ar gyfer iechyd yr amgylchedd.
- Mae fframwaith perfformiad corfforaethol seiliedig ar ddeilliannau'n bodoli, sydd yn gyson ag arfer da. Fodd bynnag, nid oes trosolwg cyfannol o'r modd y mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn perfformio yng nghyd-destun y gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned ehangach.
- Ceir her a throsolwg da lle mae materion iechyd yr amgylchedd yn y cwestiwn pan fo'r rhain yn cael eu cynnwys ar agendâu Pwyllgorau Craffu.
- Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â thrigolion ynghylch newidiadau arfaethedig lle mae'r rhain yn debygol o effeithio ar wasanaethau rheng-flaen.
- Mae'r Cyngor wedi dechrau archwilio modelau darparu amgen ac arloesi i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian.
- Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio strategol da ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd.

## Cynigion ar gyfer gwella

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cyf. | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor ddiweddaru ei ddadansoddiad o swyddogaethau iechyd yr amgylchedd statudol/dewisol i sicrhau ei fod yn dal i fod yn sail wybodaeth berthnasol a chadarn ar gyfer unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynglŷn â chyllidebau a newidiadau i wasanaethau. |
| C2 | Fel rhan o ddadansoddiad newydd o wasanaethau statudol/dewisol ym maes iechyd yr amgylchedd, dylai'r Cyngor gytuno'n ffurfiol beth sy'n gyfystyr â lefelau 'gofynnol' a 'gwell' o ddarpariaeth gwasanaethau amgylcheddol ar gyfer pob maes gwasanaeth. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i atgyfnerthu'r ffocws ar flaenoriaethau statudol allweddol a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus ynglŷn â darparu gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynyddu tryloywder ar gyfer trigolion ar yr un pryd. |
| C3 | Dylai'r Cyngor gynnal hunanasesiad blynyddol o effeithiolrwydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Llesiant yn unol â fframwaith priodol, er enghraifft Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor Adrodd Ariannol, i ddarparu sicrwydd ychwanegol ar gyfer aelodau. |

# Adroddiad manwl


## Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad seiliedig-ar-risg cynhwysfawr o'i allu i gyflawni ei rwymedigaethau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd mewn hinsawdd ariannol fwyfwy heriol. Hyd yma, mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i drefnu ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd o fewn y cwmpas ariannol sydd ar gael a chyda ffocws eglur ar ddeilliannau strategol

### Mae'r adnoddau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau ers 2014-15 gyda gostyngiadau pellach yn debygol o fod yn angenrheidiol mewn blynyddoedd yn y dyfodol

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn fe ganfuom fel a ganlyn:


- Mae cost darparu'r gwasanaethau wedi gostwng o £2.10 miliwn yn 2014-15 i £1.94 miliwn yn 2018-19, yn seiliedig ar yr alldro refeniw, fel a ddangosir yn Arddangosyn 1 isod;
- Mae niferoedd y staff wedi gostwng rhwng 2014-15 a 2018-19. Yn 2014 roedd RhCT yn cyflogi 73 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (CagALl), o'i gymharu â'r 54 aelod o staff CagALl a gyflogir ar hyn o bryd – gostyngiad o 19 ar y cyfan (ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r aelod CagALl agosaf). Cyfeirier hefyd at Arddangosyn 2 isod;
- Cyflawnwyd y gostyngiad mwyaf mewn cyllidebau yn 2015-16 trwy ymarfer ail-gyflunio gwasanaethau / lleihau costau unigol;
- Mae gostyngiadau mewn cyllidebau wedi cael eu cymhwyso i bob maes o fewn gwasanaeth iechyd yr amgylchedd, gyda rhai wedi'u gostwng i'r graddau mai dim ond gwasanaethau statudol sy'n cael eu darparu bellach, ac
- Roedd y cynllun ariannol tymor canolig diweddaraf a gyflwynwyd i'r Cabinet yn nodi bwlch cyllidebol o £13.5 miliwn a £12.8 miliwn y mae'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael ag ef yn 2020-21 a 2021-22 yn y drefn honno. Mae felly'n debygol y bydd gwasanaethau iechyd yr amgylchedd dan bwysau i gyflawni arbedion pellach yn y tymor canolig.

Arddangosyn 1 – cost Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru Cyflawni â Llai – Adolygiad o Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd 2015, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Arddangosyn 2 – gostyngiad yn niferoedd y staff (yn ôl gradd) a gyflogir gan RhCT yn 2019 o'i gymharu â 2014




Ffynhonnell: ffigyrau 2014 – Swyddfa Archwilio Cymru Cyflawni â Llai – Adolygiad o Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd 2015. Ffigyrau 2019 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## Mae arweinwyr gwasanaethau o'r farn bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ar gyfer iechyd yr amgylchedd.

13 Yn 2015-16, fel rhan o ymarfer lleihau cyllidebau ar draws y Cyngor, fe gynhaliodd y Cyngor asesiad o'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd.

14 Roedd hyn yn cynnwys adnabod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol ac anstatudol ac asesu budd cymharol y gwasanaethau hynny a oedd yn cael eu hystyried yn rhai dewisol.

15 Defnyddiwyd yr ymarfer hwn i oleuo arfarniad o'r opsiynau a wnaeth wedyn bennu cyfluniad a lefel gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a fyddai'n cael eu darparu. Dewisodd y Cyngor barhau i ddarparu rhai gwasanaethau dewisol y barnwyd eu bod yn dwyn budd mawr i'r cyhoedd.

16 Ers hynny mae'r Cyngor wedi ystyried ei gyfrifoldebau statudol mewn rhai meysydd (er enghraifft y Cynllun Ansawdd Aer a pherfformiad yn erbyn y Cynllun Sgôr Hylendid Bwyd).

17 Roedd y rhan fwyaf o swyddogion yn gallu disgrifio gofynion gwasanaethau statudol a dewisol mewn perthynas â'r meysydd o fewn eu cylch gorchwyl hwy eu hunain. Roedd rhai o'n cyfweleion yn newydd yn eu rôl ac maent yn dal i ddatblygu dealltwriaeth am y rhain.

18 Roedd yr adolygiad gwreiddiol o wasanaethau statudol / dewisol yn gynhwysfawr ac yn ystyried rhwymedigaethau statudol y Cyngor, yn ogystal â gwerth cyhoeddus y gwasanaethau dan sylw. Mae'r Cyngor wedi parhau i roi sicrwydd ar y darn gwreiddiol o waith ers 2015-16 a dylai ystyried a fyddai'n fuddiol ei ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn dal i'w gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau mewn modd effeithiol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol y Cyngor ac anghenion y boblogaeth leol.

## Mae fframwaith perfformiad corfforaethol seiliedig ar ddeilliannau'n bodoli, sydd yn gyson ag arfer da. Fodd bynnag, nid oes trosolwg cyfannol o'r modd y mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn perfformio yng nghyd-destun y gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned ehangach.

19 Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn rhan o Gyfarwyddiaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned y Cyngor. Gwasanaethau sy'n tueddu i fod yn llygad y cyhoedd – megis gwasanaethau hamdden, llyfrgelloedd a digartrefedd – sy'n cael y mwyaf o sylw yn y broses graffu, gyda llai o graffu ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd o'i gymharu.

20 Fodd bynnag, mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu i safon uchel, ac mae capasiti'n bodoli i graffu ar berfformiad yn erbyn rhwymedigaethau statudol ac asesu'r perfformiad hwnnw'n barhaus.

21 Yn arbennig, dywedodd sawl aelod o staff y gallai newidiadau sydd ar ddod i'r drefn o gyhoeddi adroddiadau statudol ar glefydau trosglwyddadwy arwain at faterion o ran capasiti ar draws y gwasanaeth gan bod angen i fwy o staff fod wedi'u hyfforddi i allu mynd i'r afael â'r galw uwch.

22 Mae Gwasanaeth Diogelwch y Cyhoedd yn llunio adroddiad chwarterol ar berfformiad a ategir gan ddangosfwrdd perfformiad. Rydym yn nodi bod y dangosfwrdd yn cynnwys y canlynol:

- Sgôr CAG i'r modd y cyflawnir pob un o saith blaenoriaeth y gwasanaeth, er ei bod yn aneglur sut y caiff y sgôr ei ddeillio;
- Sefyllfa ariannol pob maes gwasanaeth yn erbyn y gyllideb;
- Perfformiad yn erbyn set o ddangosyddion perfformiad allweddol. Rydym yn nodi, fodd bynnag, nad oes unrhyw gamau unioni na pherchnogion camau ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol lle ceir tanberfformiad (er enghraifft, yn Ch3 cyrhaeddodd y % o'r Tai Amlfeddiannaeth y rhoddwyd trwydded lawn iddynt uchafswm o 89.50% yn unig yn erbyn targed o 92% heb unrhyw esboniad o hyn yn y dangosfwrdd), a
- Naratif ansoddol ar uchafbwyntiau a phwysau'r gwasanaeth.

23 Mae'r adroddiad sy'n cyd-fynd â'r dangosfwrdd yn cynnwys gwybodaeth ansoddol i ategu'r dangosyddion perfformiad, ac mae'n darparu trosolwg o flaenoriaethau'r gwasanaeth, materion gweithredol, datblygiad y gwasanaeth a phwysau arno.

24 Fodd bynnag, o'n hadolygiad o'r wybodaeth am berfformiad, rydym yn nodi mai dim ond ychydig o ddangosyddion yr adroddir arnynt sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd – mae'r gweddill yn ymwneud â gwasanaethau eraill sydd o fewn cwmpas Diogelwch y Cyhoedd, megis safonau masnachu.

25 Mae pob gwasanaeth hefyd yn paratoi hunanasesiad blynyddol, sy'n goleuo'r cynllun cyflawni ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Caiff hwn ei baratoi gan y Pennaeth Gwasanaeth gyda mewnbwn gan reolwyr gweithredol, ac mae'n mynd trwy broses adolygu ac iddi dair cam:

- Cyfarwyddwr Gwasanaeth;
- Cyfarwyddwr Grŵp; a
- Deiliad Portffolio'r Cabinet.

26 Mae hon yn ddogfen ddefnyddiol ac mae'n darparu asesiad naratif cynhwysfawr o bob maes perfformiad yn erbyn deilliannau blaenoriaeth y Cyngor. Mae'n cynnwys enghreifftiau meintiol ac ansoddol, yn ogystal â ffynonellau tystiolaeth penodol, i ategu'r gwerthusiad.

27 Er bod y gwerthusiad terfynol yn oddrychol ar raddfa o 'gwael' i 'ardderchog', mae sawl cam o'r adolygiad yn darparu sicrwydd ychwanegol ynghylch yr asesiad hwn.

28 Er ei fod yn ymarfer cadarnhaol a defnyddiol, un blynyddol ac ôl-weithredol ydyw ac nid yw, ynddo'i hun, yn ddigonol i sicrhau trosolwg a her cynhwysfawr lle mae

gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y cwestiwn yng nghyd-destun gofynion statudol.

29 Felly, er yr adroddir ar ddata ar berfformiad iechyd yr amgylchedd wrth ystod o fforymau strategol a llywodraethu, nid yw'r data yr adroddir arno ynddo'i hun yn darparu trosolwg cyfannol o ansawdd gwasanaethau mewn perthynas â thargedau lleol a safonau statudol. Dywed y Cyngor wrthym fod gan y gwasanaeth gasgliad llawn o fesurau busnes fel arfer a phroses a'i fod yn monitro'r rhain, ond y byddai'n anodd ac anghymesur adrodd ar bopeth wrth yr Aelodau trwy'r Fframwaith Perfformiad Corfforaethol.

## Ceir her a throsolwg da lle mae materion iechyd yr amgylchedd yn y cwestiwn pan fo'r rhain yn cael eu cynnwys ar agendâu Pwyllgorau Craffu

30 Yn 2018, cafodd Pwyllgorau Craffu yn RhCT eu hail-gyflunio. Mae iechyd yr amgylchedd, yr arferai'r Pwyllgor Gwasanaethau Amgylcheddol graffu arno, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Iechyd a Llesiant ar hyn o bryd, ac mae'r pwyllgor hwnnw'n cwrdd yn chwarterol.

31 Roedd consensws barn ymhlith ein cyfweleion, a oedd yn cynnwys swyddogion ac aelodau, bod trefniadau Craffu presennol yn ddigonol i ddwyn gwasanaethau i gyfrif yn effeithiol. Roedd hyn i'w briodoli'n rhannol i aelodaeth sefydlog y Cabinet a Phwyllgorau Craffu dros y blynyddoedd diwethaf.

32 Mewn perthynas â hyfforddiant Craffu, rydym yn nodi bod y Cyngor yn darparu ystod o gyrsiau hyfforddi ar gyfer aelodau/Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu, a'r rheiny'n cynnwys sgiliau allweddol, megis dadansoddi ariannol (gan gynnwys herio'r gyllideb), Cadeirio a hyfforddiant pendantrwydd.

33 Ar ben hynny, mae gan aelodau o Bwyllgorau yr opsiwn i ofyn am hyfforddiant technegol penodol gan y Gwasanaethau Democrataidd, a fydd yn pennu'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer darparu hwn. Gall hwn gael ei ddarparu naill ai gan ymgynghorydd allanol, neu gan swyddog perthnasol yn y Cyngor.

34 Er ein bod wedi clywed sylwadau y gallai rhai aelodau o Bwyllgorau elwa o hyfforddiant ychwanegol ar sut i ofyn cwestiynau mwy treiddgar neu graffu'n fwy effeithiol ar wasanaethau, dangosodd ein hadolygiad ni o bapurau'r Pwyllgor lefel dda o her pan oedd materion iechyd yr amgylchedd ar yr agenda (er enghraifft, mewn perthynas â rhoi'r cyfleuster llety cŵn ar gontract allanol neu'r strategaeth toiledau lleol).

35 Rydym yn nodi bod modd i aelodau unigol ofyn am bapurau briffio technegol wedi'u teilwra gan y Gwasanaeth Democrataidd, pan fo'n briodol. Rydym yn nodi bod hyn wedi digwydd yn flaenorol ar sawl achlysur, ar gyfer pynciau megis ansawdd aer.

36 Ar hyn o bryd, nid yw'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Llesiant yn cynnal hunanasesiad blynyddol. Er nad yw'n ofyniad gorfodol, rydym yn argymell bod hyn yn cael ei

wneud, yn unol ag arfer gorau ac er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i fod yn fforwm effeithiol i oruchwylio gwasanaeth iechyd yr amgylchedd.

## Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â thrigolion ynghylch newidiadau arfaethedig lle mae'r rhain yn debygol o effeithio ar wasanaethau rheng-flaen

37 Rydym wedi ein hargyhoeddi bod gan y Cyngor drefniadau i gasglu barn defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â newidiadau arfaethedig i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, a bod hyn yn cael ei wneud pan fo'r newidiadau arfaethedig yn debygol o effeithio ar y boblogaeth leol.

38 O drafodaethau gydag arweinwyr gwasanaethau a rheolwyr gweithrediadau, rydym yn deall yr ymgynghorir â'r cyhoedd ynghylch unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau rheng-flaen cyn eu rhoi ar waith.

39 Ategwyd hyn gan ddogfennaeth a adolygwyd gennym, er enghraifft:

- Trosglwyddo'r gwasanaeth llety cŵn i ddarparwr trydydd parti – cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ym mis Gorffennaf 2016 a chafodd y canlyniadau eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet i oleuo'r broses benderfynu, a hefyd
- Y strategaeth toiledau lleol – cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn hydref 2018, gyda'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Llesiant yn ystod gaeaf 2019. Rydym yn nodi bod hyn wedi cynnwys ymgysylltu nid dim ond â defnyddwyr y gwasanaeth, ond hefyd â sefydliadau partner, megis Cyngor Pobl Fyddar Cymru.

40 Cafodd y newidiadau uchod i'r gwasanaethau eu hasesu o ran eu heffaith ar gydraddoldeb hefyd, gyda'r bwriad o sicrhau nad oeddent yn effeithio'n negyddol ar aelodau mwy agored i niwed o'r gymdeithas.

41 Mae gwefan RhCT yn darparu amrywiaeth o wybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys y gwasanaethau a ddarperir, ffurflenni cais a dogfennau allweddol, megis amcanion perfformiad, papurau Pwyllgorau a phenderfyniadau allweddol.

42 Mae dogfennaeth yr holl ymgyngoriadau cyhoeddus sy'n mynd rhagddynt ac sydd wedi cau yn cael ei chyhoeddi ar y wefan ar ffurf mynediad agored hefyd, gan annog defnyddwyr gwasanaethau i gyfranogi.

## Mae'r Cyngor wedi dechrau archwilio modelau darparu amgen ac arloesi i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian

43 Ceir consensws ymhlith swyddogion allweddol y Cyngor ac Aelodau bod angen i'r Cyngor archwilio newidiadau mwy trawsffurfiol, mwy seiliedig ar ddeilliannau i wasanaethau er mwyn mynd i'r afael â heriau ariannol yn y dyfodol.

44 Rydym wedi nodi enghreifftiau o'r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn barod; er enghraifft, trwy roi'r gwasanaeth llety cŵn etifeddol ar gontract allanol i ddarparwr trydydd parti. Er iddi ddwyn arbediad yn y pen draw, cafodd y broses ei hysgogi gan awydd i wella'r deilliannau i gŵn, ac mae'r rhain wedi gwella'n sylweddol ers i'r gwasanaeth gael ei drosglwyddo.

45 Ar ben hynny, mae gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn y broses o ddigideiddio sawl agwedd ar ei wasanaethau, gydag Iechyd a Diogelwch Bwyd yn agos at fod yn gwbl ddi-bapur a Thai Amlfeddiannaeth yn dod yn wasanaeth sy'n bodoli'n gyfan gwbl ar-lein.

46 Yn dilyn cyflwyno trefniadau gweithio ystwyth ar draws gwasanaethau yn ddiweddar, gan gynnwys rhai timau iechyd yr amgylchedd, mae'r Cyngor wedi cyflawni gostyngiad o 30% yn y swyddfeydd y mae eu hangen gan bod staff sy'n teithio'n gallu rheoli eu llwyth gwaith yn fwy effeithiol.

47 Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno rhai mentrau creu incwm trwy'r gwasanaeth rheoli plâu, a arferai fod yn rhad ac am ddim yn y man darparu, ond a ddaeth yn wasanaeth y codir ffioedd amdano yn 2015-16.

48 Er bod y taliadau wedi cael eu meincnodi yn derbyn Awdurdodau eraill yng Nghymru, a bod peth ystyriaeth wedi cael ei rhoi i effaith bosibl cyflwyno taliadau a'r gostyngiad posibl o ganlyniad yn y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth, o'n trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor rydym ni'n deall bod y gostyngiad yn y nifer sy'n ei ddefnyddio wedi bod yn fwy sylweddol nag a ragwelwyd.

49 I fynd i'r afael â'r effaith negyddol bosibl ar iechyd y cyhoedd, mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r opsiwn o daliadau is ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra/afiechyd hirdymor i'w galluogi i gael mynediad at y gwasanaeth rheoli plâu os oes angen hynny arnynt.

50 Mae'r gwasanaethau rheoli plâu/rheoli anifeiliaid wedi cael eu nodi yn yr hunanasesiad diweddaraf fel maes i'w wella hefyd, gyda golwg ar adolygu costau sylfaenol a chyflawni arbedion mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

51 Ar y cyfan, er bod y Cyngor wedi archwilio cyfleoedd amrywiol i greu incwm, mae angen gwaith pellach i gyfnerthu'r rhain er mwyn darparu ffrwd incwm ddibynadwy i liniaru effeithiau gostyngiadau mewn cyllid yn y dyfodol.

## Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio strategol da ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd

52 Yn dilyn yr hunanwerthusiad yn 2017-18, aseiniwyd tair blaenoriaeth allweddol i wasanaeth Diogelwch y Cyhoedd yn ei gynllun cyflawni ar gyfer 2018-19, ac mae'r rheiny'n gyson ag amcanion a deilliannau strategol cyffredinol y Cyngor.

53 Roedd y swyddogion y cyfwelwyd â hwy'n gallu disgrifio sut yr oedd eu meysydd hwy o fewn gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cyfrannu at gyflawni amcanion ehangach y Cyngor a'r risgiau allweddol i gyflawni'r rhain.

54 Fe wnaeth trafodaethau gyda swyddogion allweddol yn y Cyngor amlygu'r ffaith bod y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cyllidebu seiliedig ar ddeilliannau, arloesi a defnyddio technoleg i ddiogelu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd at y dyfodol.

55 Rydym wedi gweld tystiolaeth bod y Cyngor yn ystyried ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd yng nghyd-destun ei agendâu gwasanaethau ehangach, megis iechyd y cyhoedd, diogelwch cymunedol, cynllunio a thwf economaidd.

56 Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer 2018/19 yn cynnwys set o gerrig milltir a chamau gweithredu penodol sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg a gweithio ystwyth, megis cwblhau'r broses o gyflawni cynllun digidol y Cyngor. Mae camau eisoes wedi cael eu cymryd gyda digideiddio'n cael ei gyflwyno ar draws rhai rhannau o wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd.

57 Ar ben hynny, rydym wedi gweld tystiolaeth bod y Cyngor yn defnyddio data (er enghraifft, meincnodi) i oleuo prosesau penderfynu mewn perthynas â darparu gwasanaethau; er enghraifft, wrth gyflwyno taliadau am wasanaethau rheoli plâu.

58 Gan bod y gwasanaeth yn ceisio cyflawni cynaliadwyedd ariannol a gweithredol yn y dyfodol, rydym yn argymell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r modd y gall y data ar weithgarwch a gesglir oleuo'r broses o ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir yn y dyfodol.

59 Gallai meysydd posibl ar gyfer arloesi yn y dyfodol gynnwys:

- modelau darparu masnachol a chydweithredol newydd ar gyfer gwasanaethau RhCT, a
- defnyddio data i ragfynegi'r angen am wasanaethau a thargedu ymatebion yn hytrach na chynnal darpariaeth gwasanaethau gyffredinol.

60 Byddai dadansoddi data ar weithgarwch, y mae peth ohono eisoes yn cael ei gasglu, yn ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â dirwyn gwasanaethau i ben neu eu lleihau, gan sicrhau ar yr un pryd bod y rhai sy'n dwyn y budd mwyaf i ddefnyddwyr gwasanaethau'n aros.

# Atodiad 1

## Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – Cyflawni â Llai – yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion, Hydref 2014

Fel rhan o'i gyfres 'cyflawni â llai' o Astudiaethau Gwella Llywodraeth Leol, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad – Cyflawni â Llai – yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion, ym mis Hydref 2014. Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad a nodir isod:

Arddangosyn 1: argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | Cynghorau, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau;<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau;<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain;<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion;<br>• gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru |
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: | Cynghorau |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| | effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | |
| A6 | Nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni. | Llywodraeth Cymru,<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

# Atodiad 2

## Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

Crynodeb o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, **Cyflawni â Llai: yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion** (Hydref 2014).

Arddangosyn 2: cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

| Argymhellion | Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad |
|---|---|
| A1 Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | Y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn |
| A2 Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Mae Gwasanaeth Democrataidd y Cyngor yn darparu ystod o gyrsiau hyfforddi ar gyfer aelodau/Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu, a'r rheiny'n cynnwys sgiliau allweddol, megis dadansoddi ariannol (gan gynnwys herio'r gyllideb), Cadeirio a hyfforddiant pendantrwydd.<br>Mae gan aelodau o Bwyllgorau yr opsiwn i ofyn am hyfforddiant technegol penodol ac rydym wedi gweld tystiolaeth ohonynt yn gwneud hynny.<br>Er ein bod wedi clywed sylwadau y gallai rhai aelodau o Bwyllgorau elwa o hyfforddiant ychwanegol ar sut i ofyn cwestiynau mwy treiddgar neu graffu'n fwy effeithiol ar wasanaethau, dangosodd ein hadolygiad ni o bapurau'r Pwyllgor lefel dda o her pan oedd materion iechyd yr amgylchedd ar yr agenda. |

| Argymhellion | | Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad |
|---|---|---|
| A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau;<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Dywedodd swyddogion y Cyngor a gyfwelwyd wrthym fod y Cyngor yn ymgynghori â'r defnyddwyr gwasanaethau lle mae newidiadau arfaethedig yn debygol o effeithio ar ddarparu gwasanaethau rheng-flaen.<br>Ategwyd y datganiad hwn gan ein hadolygiad o ddogfennaeth. Rydym wedi gweld tystiolaeth o'r Cyngor yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau ynghylch newidiadau i nifer o wasanaethau o fewn iechyd yr amgylchedd gan gynnwys, ymhlith eraill:<br>• rhoi'r cyfleuster llety cŵn ar gontract allanol, a<br>• pharatoi'r Strategaeth Toiledau drafft.<br>Rydym wedi ein hargyhoeddi, felly, bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. |
| A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau;<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain;<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion;<br>• gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar | Mae'r Cyngor yn asesu pa un a yw'r gwasanaeth yn rhoi Gwerth am Arian trwy'r broses hunanwerthuso flynyddol.<br>Rydym wedi nodi enghreifftiau o roi mentrau ar waith i wella effeithlonrwydd a chyflawni deilliannau gwell, er enghraifft trwy roi gwasanaethau ar gontract allanol a digideiddio rhai agweddau neu bob agwedd ar rai meysydd gwasanaeth o fewn iechyd yr amgylchedd.<br>Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno mentrau creu incwm trwy'r gwasanaeth rheoli plâu, sydd wedi bod yn wasanaeth y codir ffioedd amdano ers 2015-16.<br>Rydym yn nodi, fodd bynnag, nad yw 'safonau perfformiad derbyniol', er y cyfeiriwyd atynt yn anffurfiol ymhlith rheolwyr gweithredol, wedi cael eu dogfennu na'u cyhoeddi. |

| Argymhellion | Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad |
|---|---|
| weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | |
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Aseiniwyd tair blaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth Diogelwch y Cyhoedd yng nghynllun cyflawni 2018-19, a'r rheiny'n gyson ag amcanion strategol a deilliannau'r Cyngor.<br>Fe wnaeth trafodaethau gyda swyddogion allweddol yn y Cyngor amlygu'r ffaith bod y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cyllidebu seiliedig ar ddeilliannau, arloesi a defnyddio technoleg i ddiogelu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd at y dyfodol.<br>Efallai yr hoffai'r Cyngor ystyried ymhellach sut y gall y data ar weithgarwch a gesglir oleuo'r broses o ddatblygu'r ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. |
| A6 Nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni. | Y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone. : 029 2032 0660

E-mail: info@audit. wales
Website: www. audit. wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio. cymru
Gwefan: www. archwilio. cymru